# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(2) 04-05(p4)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 12 Mai 2005 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4 |
| **Amser:** | 09.30 |
| **Teitl:** | Prif ffrydio Cydraddoldeb – y sefyllfa o ran gweithredu argymhellion adroddiad ar gyfer Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |

### Diben

**1. Yn dilyn ystyried ymatebion i adroddiad 'Prif ffrydio Cydraddoldeb' y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 17eg Mawrth, mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu argymhellion 16, 17, 18 a 27 fel y maent yn berthnasol i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad.**

### Argymhelliad

**2. Gwahoddir aelodau i ystyried a chynnig sylwadau ar yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn.**

### Cynnydd â'r gweithredu

**Argymhelliad 27 - y dylid paratoi rhestr wirio syml o gwestiynau i Bwyllgorau Pwnc ei defnyddio. Dylai'r rhestr honno gael ei llunio gan ymgynghori â Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor Cyfle Cyfartal.**

**3. Bwriad y Pwyllgor oedd y dylai rhestr wirio o'r fath helpu pwyllgorau i baratoi eu hadroddiadau blynyddol a'u blaenraglenni gwaith. Rhoddodd Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor gyflwyniadau i Banel y Cadeiryddion a staff Gwasanaeth Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau er mwyn egluro ymhellach beth fyddai'r disgwyliadau o fabwysiadu'r argymhelliad hwn. Darparodd y Gwahoddedigion Sefydlog restr o gwestiynau a awgryment, ac fe'i cyplysir yn Atodiad 1.**

- **Gwahoddir aelodau i gynnig sylwadau ar y rhestr yn Atodiad 1, ac efallai ychwanegu ati.**

**Argymhelliad 16 – y dylid diwygio'r arweiniad ar bapurau'r Pwyllgorau a chyflwyniadau Gweinidogion i wneud ystyried goblygiadau cyfle cyfartal yn ofynnol.**

**4. Awgrymir newid yr arweiniad cyfredol (dangosir newidiadau mewn llythrennau trwm) i nodi*:* "Mae ar y Cynulliad ddyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i gydweithredu â llywodraeth leol, busnes a'r sector gwirfoddol ac i gyflawni ei swyddogaethau â sylw dyledus i egwyddorion cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy."**

***"Bydd pwyllgorau yn dymuno [Gall pwyllgorau ddymuno] gweld ystyriaeth benodol o'r goblygiadau yn achos y materion strategol hyn. Wrth ddrafftio papurau dylech ystyried goblygiadau [(os oes rhai]) y materion trawsbynciol hyn o'r cychwyn a hefyd a oes unrhyw oblygiadau i bwyllgorau eraill."***

***5. Awgrymir nad yw'r gofyniad cyfredol yn ddigon manwl i sicrhau bod materion cydraddoldeb (nac unrhyw faterion trawsbynciol eraill mewn gwirionedd) yn cael digon o sylw ym mhapurau Gweinidogion a Phwyllgorau. Mae Uned Gydraddoldeb Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi paratoi cyfarwyddiadau desg i helpu awduron i ystyried goblygiadau cyfle cyfartal a sut y gellir ymdrin â hwy. Maent am i'r cwestiynau canlynol gael eu hateb yn achos pob papur monitro rhaglen, ac yn gofyn am dystiolaeth ategol ac awgrymiadau ar gyfer gwella yn achos pob ateb a roddir:***

- ***A allai unrhyw argymhellion i weithredu gael effeithiau niweidiol ar gyfle cyfartal i unrhyw grwp, e.e. pobl anabl?***
- ***A ellir cyfiawnhau'r effaith?***
- ***A all gweithredu ychwanegol neu weithredu arall leihau'r effaith?***
- ***A wnaed trefniadau i fonitro ac adolygu effaith unrhyw weithredu neu unrhyw argymhelliad a wnaed?***
- ***A yw'r papur yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o arferion da yn ymwneud â chyfle cyfartal?***
- ***Awgrymir y dylai pob Papur Pwyllgor gynnwys ymatebion i restr o gwestiynau tebyg i'r rhai a roddir uchod. A yw'r Aelodau'n cytuno ac a ydynt yn dymuno cynnig sylwadau ar addasrwydd y rhestr hon o gwestiynau i bapurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bwyllgorau?***

***Argymhellion 17 a 18 - y dylid adolygu arweiniad y Cynulliad ar ymgynghori i sicrhau ei fod wedi ei seilio'n gadarn ar egwyddorion cyfle cyfartal a'i fod yn ymdrin â'r angen i ymwneud ag amrywiaeth y cyhoedd yng Nghymru. Wrth gynnal ymgynghoriad, dylai'r Cynulliad geisio ymwneud â'r amrywiaeth mwyaf posibl o unigolion a sefydliadau.***

*6. Mae'r Adroddiad Prif Ffrydio yn cydnabod mai prin oedd yr arweiniad a oedd ar gael ar ddechrau ei adolygiad a bod y sefyllfa honno wedi gwella, ond nid yw'r arweiniad yn cael ei ddilyn yn gyson. Bydd y Grwp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd i edrych ar y ffordd y rhoddir argymhellion y Pwyllgor ar waith yn y Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ar y mater hwn. Mae Gwahoddedigion Sefydlog y Pwyllgor wrth gwrs yn cael eu cynrychioli ar y grwp hwnnw a gall fod yn briodol iddynt hwy gynnig sylwadau ar briodoldeb yr arweiniad diwygiedig o ran ymdrin â materion cydraddoldeb. Cyplysir copi o'r arweiniad diwygiedig hwn a chanllawiau "arferion da wrth gynhyrchu gwybodaeth am fynediad" yn Atodiadau 2 a 3.*

*7. Gwahoddir aelodau i astudio'r ddogfen hon a chynnig sylwadau ar unrhyw wendidau a welir. Yn arbennig, gofynnir iddynt nodi a roddir digon o sylw i'r gofyniad y dylai ymgynghoriad ymateb i ofynion arbennig gwahanol grwpiau lleiafrifol, ac a oes digon o bwyslais ar yr angen i feddwl mewn mwy nag un cyfeiriad wrth fynd i'r afael ag anghenion gwahanol grwpiau a diwylliannau.*

*8. O fewn Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, cynhelir ymgynghoriadau eang yn rheolaidd. Mae Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau wedi adolygu ei restr o ymgynghoreion gyda'r Uned Polisi Cydraddoldeb, er mwyn sicrhau bod pob sefydliad perthnasol sy'n cynrychioli'r ffrydiau cydraddoldeb wedi eu cynnwys wrth ymgynghori. Cyplysir y rhestr yn Atodiad 4. Y bwriad yw i'r rhestr hon gael ei defnyddio'n sail i ymarferion yn y dyfodol.*

- *Gwahoddir aelodau i gynnig sylwadau ar yr arweiniad diwygiedig ar ymgynghori yn Atodiad 2, ac i nodi'r rhestr o ymgynghoreion yn Atodiad 4.*

## *Gweithredu*

*9. Gwahoddir aelodau i:*

- *gynnig sylwadau ar y rhestr yn Atodiad 1 ac efallai ychwanegu ati.*
- *cytuno ar ymagwedd at arweiniad ar ddarparu papurau Llywodraeth Cynulliad Cymru i Bwyllgorau (paragraffau 4 a 5 uchod)*
- *cynnig sylwadau ar yr arweiniad diwygiedig ar ymgynghori yn Atodiad 2, a nodi'r rhestr o ymgynghoreion yn Atodiad 4.*

*Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau*